



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar ddefnyddio chwistrellwyr adrenalin awtomatig brys mewn ysgolion yng Nghymru

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 220/2017

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2017

Canllawiau ar ddefnyddio chwistrellwyr adrenalin awtomatig brys mewn ysgolion yng Nghymru

Cynulleidfa

Cyrff llywodraethu a staff pob meithrinfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, ac ysgol arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau lleol; byrddau iechyd; rhieni/gofalwyr, disgyblion a sefydliadau sydd â diddordeb.

Trosolwg

Prif nod y ddogfen ganllaw hon yw darparu cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ar newidiadau i reoliadau'r DU sy'n caniatáu i ysgolion gael chwistrellwyr adrenalin awtomatig, heb bresgripsiwn, i'w defnyddio mewn argyfwng.

Camau i'w cymryd

Dylid tynnu'r ddogfen hon i sylw rheolwyr ac aelodau perthnasol o staff, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol

Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: additionallearningneedsbranch@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-aais-in-schools-in-wales/?lang=cy

Dogfennau cysylltiedig

Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd (2017)

Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru (2014)

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Anaffylacsis	4
3. Chwistrellwyr adrenalin awtomatig (AAIs)	7
4. Ymateb i symptomau alergedd ac anaffylacsis	11
5. Staff	15
6. Awgrymiadau o wybodaeth i'w rhannu â rhieni	17
7. Dolenni defnyddiol	18
Atodiad A: Ffurflen dempled i brynu AAIs brys	19
Atodiad B: Templed ffurflen ganiatâd	20
Atodiad C: Defnyddio templed llythyr AAI	21

1. Cyflwyniad

Yn y DU, mae gan hyd at 8% o blant alergedd bwyd¹ ac mae 17% o adweithiau alergaidd anghuol ymysg plant oedran ysgol yn digwydd tra maent yn yr ysgol².

Mewn ymateb i hyn ac yn dilyn cyngor gan y Comisiwn Meddyginiaethau Dynol, yn 2017 fe wnaeth yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) argymhell newidiadau i ddeddfwriaeth y DU, er mwyn galluogi ysgolion³ i gael chwistrellwyr adrenalín awtomatig (AAIs) heb bresgripsiwn, i'w defnyddio mewn argyfwng ar ddisgyblion sydd mewn perygl o anaffylacsis.

Ar ôl i Lywodraeth y DU gytuno, mae diwygiad i Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 yn caniatáu i ysgolion⁴ gadw AAIs heb bresgripsiwn, i'w defnyddio mewn argyfwng o 1 Hydref 2017 ymlaen. Mae'r newid hwn yn berthnasol i feithrinfeydd, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion annibynnol yng Nghymru.

Nid oes yn rhaid i ysgolion gadw AAIs sbâr i'w defnyddio mewn argyfwng - mae hwn yn bŵer disgrisiwn sy'n galluogi ysgolion i wneud hynny os ydynt yn dymuno. Os yw ysgol yn penderfynu cadw AAI sbâr, dylai lunio polisi ar sut i'w ddefnyddio. Mae angen i'r polisi gael ei ddatblygu yn unol â'r ddogfen hon a'r canllawiau strategol [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#).

Gellir defnyddio AAI sbâr os nad yw AAI penodol y disgybl ar gael, er enghraifft gan ei fod wedi torri neu wedi gorffen, a dim ond ar ddisgybl y gwyddys ei fod mewn perygl o anaffylacsis y dylid ei ddefnyddio:

- pan nad oes modd iddo roi ei AAI penodol ei hun yn gywir, heb oedi; a
- pan fydd caniatâd gan y rhieni⁵ neu'r disgybl, lle'n briodol, wedi'i ddarparu.

Dylid ystyried unrhyw AAI y mae ysgol yn ei gadw fel dyfais sbâr neu wrth gefn, nid dyfais i gymryd lle AAI y disgybl ei hun. Mae canllawiau presennol yr MHRA yn nodi y dylai unrhyw un sydd ag AAI ar bresgripsiwn gario dau gydag ef bob amser. Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli'r cyngor hwn⁶, a dylai unrhyw AAI sbâr sy'n cael ei gadw mewn ysgol fod yn ychwanegol i'r rheini y mae'r disgybl eisoes wedi'u cael ar bresgripsiwn.

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i [Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#)⁷, fel y nodir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc

1 Asiantaeth Safonau Bwyd y DU <https://www.food.gov.uk/science/allergy-intolerance>

2 Turner PJ, Gowland MH, Sharma V et al. Cynnydd yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn sgil anaffylacsis ond dim cynnydd mewn marwolaethau: dadansoddiad o ddata anaffylacsis cenedlaethol y DU, 1992-2012. J Allergy Clin Immunol 2015;135:956-63. Ar gael yn: [http://www.jacionline.org/article/S0091-6749\(14\)01516-4/fulltext](http://www.jacionline.org/article/S0091-6749(14)01516-4/fulltext)

3 Yn y canllawiau hyn, mae'r term 'ysgol' yn cyfeirio at bob meithrinfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, ysgol arbennig a gynhelir, ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru.

4 Dim ond y sefydliadau hynny a nodir yn rheoliad 22 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol (Rhif 2) 2014, sy'n diwygio rheoliad 213 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 sy'n cael cadw chwistrellwyr adrenalín awtomatig sbâr yn gyfreithlon. Mae Rheoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol (Diwygiad) 2017 yn diwygio atodlen 17 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012, ac yn nodi'r egwyddorion cyflenwi i ysgolion.

5 Yn y canllawiau hyn, mae'r term 'rhiant/rhieni' hefyd yn cyfeirio at 'ofalwr/gofalwyr'.

6 <https://www.gov.uk/drug-safety-update/adrenaline-auto-injector-advice-for-patients>

7 Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â sicrhau hawl plentyn i gael gofal sylfaenol ac i oroesi (Erthygl 6); bod gan blant yr hawl i addysg (Erthygl 28); y dylai rhieni feddwl am yr hyn sydd orau i'r plentyn a'r person ifanc wrth wneud dewisiadau sy'n effeithio amynt (Erthygl 3); bod gan bob plentyn yr hawl i ddweud eu barn ynghylch unrhyw faterion sy'n

(Cymru) 2011. Datblygwyd y canllawiau hyn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ar y cyd â'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn rhoi cyngor ar beth y dylid ei gynnwys mewn polisi AAI.

2. Anaffylacsis

Mae anaffylacsis ("ana-ffyl-acs-is") yn adwaith alergaidd difrifol, sy'n gallu peryglu bywyd, ac yn aml yn digwydd o fewn munudau neu weithiau ar ôl oriau. Mae'n digwydd oherwydd bod system imiwnedd y corff yn ymateb yn amhriodol i sylwedd y mae'n ei ystyried, yn anghywir felly, yn fygythiad. Mae'r sylwedd ('alergen') a gwrthgorff o'r enw lmiwnoglobulin E (IgE) yn rhyngweithio ac yn rhyddhau cemegau, megis histamin, gan achosi adwaith alergaidd. Yn y croen, mae hyn yn achosi brech goslyd, chwydd a chochni. Mae llawer o ddisgyblion (nid dim ond y rheini ag asthma) yn cael trafferth anadlu, tebyg i bwl o asthma. Gall y gwddf dynhau, gan achosi trafferthion wrth lyncu ac anadlu, a sain dreiddgar (gwich) wrth anadlu. Mae dolenni defnyddiol ar anaffylacsis wedi'u rhestru yn Adran 7.

Beth sy'n achosi anaffylacsis

Mae'r allergenau sy'n gallu achosi anaffylacsis yn cynnwys y canlynol:

- **bwydydd** e.e. cnau daear, cnau coed (megis almon, cneuen Ffrengig, cneuen gashiw, pecan, cneuen gyll), llaeth, caws a chynnyrch llaeth eraill, wy, gwenith, pysgod, pysgod cregyn, bwyd môr, seleri, seleriac, sesame, mwstard, soia, ffrwythau, ac ati
- **pigiadau pryfed** e.e. gwenynen, gwenynen feirch
- **meddyginiaethau** e.e. gwrthfotigau megis penisilin, dulliau lleddfdu poen megis ibuprofen, aspirin
- **latecs** e.e. menig rwber, balw̄ns, capiau nofio
- yn llai aml, **anifeiliaid** e.e. ceffylau, cathod, cŵn

Mewn rhai achosion, nid oes sbardun amlwg. Gelwir hyn yn anaffylacsis idiopathig.

Nid rhestr gynhwysfawr yw hon. Gall disgyblion gael mwy nag un alergedd.

Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar ba mor ddifrifol yw'r adwaith, gan gynnwys mân salwch (megis annwyd), asthma, ymarfer corff, ac yn achos bwyd, faint mae'r disgybl wedi ei fwyta. Mae'n anarferol i rywun sydd ag alergedd bwyd gael anaffylacsis dim ond wrth gyffwrdd bwyd y mae ganddo alergedd iddo.

Mae'r symptomau'n amrywio yn dibynnu ar yr allergen:

- Bwyd: Gall adweithiau difrifol ddigwydd o fewn munudau, tra gall eraill ddigwydd dros 1-2 awr ar ôl bwyta. Mae oedi yn aml gydag adweithiau difrifol i fwydydd cynnyrch llaeth (e.e. caws), ac efallai y byddant yn debyg i bwl o asthma difrifol heb unrhyw symptom arall (e.e. brech ar y croen).
- Pigiadau pryfed: Mae adweithiau difrifol yn aml yn gyflymach, ac yn digwydd o fewn 10-15 munud⁸.

⁸ Trin adweithiau anaffylactig ar frys: Canllawiau i ddarparwyr gofal iechyd. Y Cyngor Dadebru (DU). Ar gael yn: <https://www.resus.org.uk/anaphylaxis/emergency-treatment-of-anaphylactic-reactions/>

Nid canllawiau manwl ar gyfer gwneud diagnosis neu drin anaffylacsis yw'r ddogfen hon. Os bydd unrhyw aelod o staff yn amau bod gan ddisgybl alergedd, dylent roi gwybod i'r rhieni er mwyn iddynt fynd â'u plentyn at y meddyg.

Pa mor gyffredin yw anaffylacsis mewn ysgolion?

Mae gan hyd at 8% o blant yn y DU alergedd bwyd⁹. Fel arfer, mae adweithiau i fwyd yn ysgafn i gymedrol, hyd yn oed ymysg plant sydd wedi cael anaffylacsis yn y gorffennol. Mae adweithiau alergaidd angheuol yn brin, ond maent hefyd yn anodd eu rhagweld. Yn y DU, mae 17% o adweithiau alergaidd angheuol ymysg plant oedran ysgol yn digwydd tra maent yn yr ysgol¹⁰. Mae angen i ysgolion felly ystyried sut i leihau'r risg o adwaith alergaidd, yn unol â'r canllawiau [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#). Mae'r isod yn darparu rhestr o gamau y gall rhieni ac ysgolion eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad ag alergenau¹¹:

Gall rhieni plant ag alergeddau/disgyblion ag alergredd (lle'n briodol), gwneud y canlynol:

- leisio eu pryderon a chreu cynllun anghenion gofal iechyd (IHP) annibynnol gyda'r ysgol
- rhoi caniatâd i'r holl staff perthnasol gael gwybod am yr alergedd, gallai hyn gynnwys y rheolwyr arlwy, staff amser cinio, staff chwaraeon ac ati
- rhoi labeli clir gydag enw eu plentyn ar feddyginiaethau, bocsys bwyd, diodydd, ac ati

Gall ysgolion wneud y canlynol:

- trefnu amser i gyfarfod y rhieni i drafod y gefnogaeth sydd ar gael ac i greu cynllun anghenion gofal iechyd
- gofyn am ganiatâd y rhieni (a/neu ganiatâd y disgybl lle'n briodol) i roi gwybod i'r holl staff perthnasol am alergedd y disgybl, gallai hyn gynnwys y rheolwyr arlwy, staff amser cinio, staff chwaraeon ac ati
- sicrhau y dilynir mesurau i atal traws-heintio wrth drin, paratoi a gweini bwyd. Er enghraifft, paratoi bwyd ar gyfer disgyblion sydd ag alergedd yn gyntaf; glanhau mannau paratoi/storio bwyd, byrddau torri ac offer yn ofalus (gan ddefnyddio dŵr sebon cynnes)
- dangos i staff sut mae gwirio labeli sy'n cynnwys gwybodaeth am alergenau. Mae mwy o berygl i fwyd heb ei labelu dod i gysylltiad ag alergenau na bwyd wedi'i becynnu wedi'i labelu â gwybodaeth am alergedd
- sicrhau nad yw disgyblion yn cael bwyd heb ei drefnu, e.e. cacen ben-blwydd heb ei labelu/cartref. Gallai'r rhieni/disgyblion ddarparu danteithion wedi'u pecynnu heb gynnwys alergenau a heb fod yn hen mewn bocsys wedi'i labelu yn glir, i'w gadw yn yr ysgol fel dewis arall
- rhoi polisïau ar waith i osgoi cyfnewid a rhannu bwyd, offer bwyd neu gynwysyddion bwyd
- ystyried a oes angen newid/cyfyngu ar unrhyw fwyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn sesiynau crefftiau, dosbarthiadau coginio, arbrofion gwyddoniaeth, digwyddiadau arbennig (e.e. ffeiriau, gwasanaethau, digwyddiadau diwylliannol) er mwyn atal adwaith. Er enghraifft, gellid defnyddio

9 Asiantaeth Safonau Bwyd y DU <https://www.food.gov.uk/science/allergy-intolerance>

10 Turner PJ, Gowland MH, Sharma V et al. Cynnydd yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn sgil anaffylacsis ond dim cynnydd mewn marwolaethau: dadansoddiad o ddata anaffylacsis cenedlaethol y DU, 1992-2012. *J Allergy Clin Immunol* 2015;135:956-63. Ar gael yn: [http://www.iaonline.org/article/S0091-6749\(14\)01516-4/fulltext](http://www.iaonline.org/article/S0091-6749(14)01516-4/fulltext)

11 Mae'r rhestr wedi'i haddasu o Vale S, Smith J, Said M, Mullins RJ, Loh R. Canllawiau ASCIA ar gyfer atal anaffylacsis mewn ysgolion, lleoliadau cyn ysgol a lleoliadau gofal plant: diweddariad 2015. *Dyddlyfr Iechyd Plant Pediatreg*. 2015 Hydref;51(10):949-54.

blawd di-wenith ar gyfer toes chwarae neu goginio, gellid defnyddio rhywbeth arall yn lle cartonau wyau wrth wneud crefftau

- gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn meddwl am ofynion arlwy a chynllunio mewn argyfwng mewn da bryd (gan gynnwys mynediad i feddyginiaeth a gofal meddygol brys). Gallai hyn gynnwys digwyddiadau chwaraeon, teithiau (e.e. tai bwyta a ffatrïoedd prosesu bwyd), tripiâu ysgol, gwersylloedd, ac ati.

Mae Adran 6 y ddogfen hon yn darparu rhagor o awgrymiadau o wybodaeth i'w rhannu â rhieni.

3. Chwistrellwyr adrenalin awtomatig (AAIs)

Caiff AAIs eu galw weithiau yn 'bennau adrenalin'. Y brandiau sydd ar gael yn y DU ar hyn o bryd yw [Emerade®](#), [Epipen®](#) a [Jext®](#)¹². Maent yn cynnwys un dos sefydlog o adrenalin (sy'n cael ei alw weithiau'n epineffrini) ac yn cael eu hargymell fel y driniaeth gyntaf ar gyfer anaffylacsis. Mae adrenalin yn trin y symptomau ac yn rhwystro rhagor o gemegau rhag cael eu rhyddhau ac achosi anaffylacsis. Gall AAIs arbed bywyd ac maent yn ddyfeisiau sy'n galluogi gweithwyr proffesiynol heb fod ym maes gofal iechyd i weinyddu adrenalin e.e. staff, teulu, unigolion sy'n gallu rhoi cymorth cyntaf.



AAI, at ddibenion enghreifftiol yn unig. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Disgyblion sy'n cael AAI ar bresgripsiwn

Gallai cadw AAI sbâr ar gyfer argyfwng arbed bywyd plentyn neu berson ifanc a rhoi mwy o dawelwch meddwl i rieni. Efallai bod disgyblion a chanddynt AAIs ar bresgripsiwn eisoes yn yr ysgol, ac mae dyletswydd arni i gefnogi anghenion gofal iechyd ei disgyblion.

Os yw disgybl yn gallu rheoli ei AAI(s) penodol ei hun, dylai ei gadw gydag ef. Os nad ydyw, dylai fod ar gael iddo yn gyflym ac yn hawdd bob amser. Er enghraifft, dylid ei gadw mewn swyddfa ganolog mewn bocs gyda'i enw wedi'i nodi'n glir arno. Ni ddylid ei gloi yn rhywle.

Dylid cofnodi ei bod yn bosibl y bydd angen yr AAI ar y disgybl yn ei gynllun anghenion gofal iechyd. Lle nad oes gan y disgybl anghenion gofal iechyd eraill, efallai y bydd Cynllun Gweithredu Cymdeithas Alergedd ac Imiwnedd Glinigol Prydain (BSACI) yn ddefnyddiol¹³.

Polisi AAI brys

Os yw ysgol yn penderfynu cadw AAI sbâr, dylai lunio polisi ar sut i'w ddefnyddio. Mae angen i'r polisi gael ei ddatblygu yn unol â'r ddogfen hon a'r canllawiau strategol [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#). Gellir ymgorffori'r polisi hwn ym Mholisi Anghenion Gofal Iechyd yr ysgol neu ei lunio fel dogfen ar wahân.

¹² Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynnwys unrhyw ddolenni allanol sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon.

¹³ <http://www.sparepenschools.uk/plans> neu <http://www.bsaci.org/about/pag-allergy-action-plans-for-children>

Dylai'r Polisi AAI Brys ymdrin â'r canlynol:

- adnabod symptomau anaffylacsis ac ymateb iddynt
- creu Cofrestr AAI Brys o'r rheini sydd â chaniatâd i gael yr AAI brys
- pennu unigolyn penodol i fod yn gyfrifol am yr AAI brys yn gyffredinol, gan gynnwys monitro'r broses o'i weithredu a chynnal y Gofrestr AAI Brys
- pennu o leiaf dau unigolyn penodol i fod yn gyfrifol am brynu, storio, gofalu a chael gwared ar yr AAI
- delio ag argyfyngau, gan gynnwys sut mae cael help, sut mae cefnogi dosbarthiadau os bydd yn rhaid i rywun ddelio ag argyfwng, ac ati
- trefniadau ar gyfer prynu, storio, gofalu, defnyddio a chael gwared ar yr AAI brys
- trefniadau ar gyfer hyfforddiant staff a chefnogaeth gan yr ysgol a'r awdurdod lleol
- cadw cofnod o bryd caiff yr AAI ei ddefnyddio, gan gynnwys rhoi gwybod i rieni ei fod wedi cael ei ddefnyddio

Cofrestr AAI Brys

Mae angen i'r gofrestr AAI brys nodi'r disgyblion y gellir rhoi'r AAI sbâr iddynt mewn argyfwng. Mae ffurflen ganiatâd ar gael yn Atodiad B. Dylai ysgolion sicrhau bod y gofrestr (a phob copi ohoni):

- yn rhestru'r disgyblion sydd ag AAI ar bresgripsiwn (lle mae meddyg wedi darparu cynllun ysgrifenedig yn argymhell defnyddio AAI gydag anaffylacsis), eu halergeddau a'r ffactorau risg ar gyfer anaffylacsis;
- yn dangos math a dos AAI penodol y disgybl e.e. *Epipen, 0.3 miligram*;
- yn nodi bod caniatâd ysgrifenedig wedi'i roi i ddefnyddio'r AAI brys, a allai fod yn wahanol i'r AAI ar bresgripsiwn;
- ar gael yn hawdd bob amser (dylid ystyried clybiau cyn/ar ôl yr ysgol) a bod staff yn gwybod lle mae'n cael ei gadw;
- lle bo'n bosib, yn cynnwys llun o'r disgybl (rhaid cael caniatâd priodol);
- yn cynnwys manylion cyswllt y staff sy'n gyfrifol am ofalu am y pecynnau AAI ac unrhyw swyddogion cymorth cyntaf yn yr ysgol;
- yn cynnwys manylion cyswllt y disgybl mewn argyfwng, ac yn ystyried cyfrinachedd yr wybodaeth;
- yn dangos y dyddiad y lluniwyd/diweddarwyd y gofrestr (er mwyn rheoli fersiynau) a'i bod yn cael ei diweddarau;
- yn hawdd ei deall mewn argyfwng; a
- bod y copi diweddaraf yn cael ei gadw gyda'r AAI brys

Prynu'r AAI(s) brys

Dylai ysgolion brynu AAI sbâr o gyflenwr fferyllol fel fferyllfa gymunedol - nid oes angen presgripsiwn. Gellir cael AAI fesul ychydig ar yr amod bod hynny'n cael ei wneud yn achlysurol ac nad yw'r ysgol yn bwriadu gwneud elw ohonynt.

Mae gwahanol ddosau o AAls ar gael, yn dibynnu ar y gwneuthurwr. Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn argymhell trin anaffylacsis gan ddefnyddio meini prawf sy'n seiliedig ar oed¹⁴:

Ar gyfer plant dan 6 oed:	Ar gyfer plant rhwng 6 a 12 oed:	Ar gyfer pobl ifanc 12 oed a hŷn:
Epipen Junior 0.15 miligram neu	Epipen 0.3 miligram neu	Epipen 0.3 miligram neu
Emerade 150 microgram neu	Emerade 300 microgram neu	Emerade 300 microgram neu
Jext 150 microgram	Jext 300 microgram	Jext 300 microgram neu
		Emerade 500 microgram

Efallai y bydd ysgolion yn awyddus i drafod pa AAls sy'n briodol i'w disgybl gyda fferylllydd. Mae faint i'w brynu a pha fath yn dibynnu ar amgylchiadau lleol, ac mae'r penderfyniad yn cael ei wneud yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

Bydd fferyllfeydd yn codi tâl am gost yr AAI ac efallai y byddant yn codi tâl am ddelio â'r broses. Bydd angen cais wedi'i lofnodi gan y pennaeth ar y fferyllfa, yn nodi'r canlynol:

- enw'r ysgol y mae angen y cynnyrch (AAI) arni;
- pam mae angen y cynnyrch (AAI) arni;
- y cyfanswm (o AAls) sydd ei angen arni.

Mae llythyr templed ar gyfer prynu AAls yn Atodiad A.

Pecynnau anaffylacsis brys - eu storio, gofalu amdanynt a chael gwared arnynt

Mae'n arfer da i ysgolion sy'n cadw AAI brys sbâr eu storio fel rhan o 'becyn' brys. Mae angen 'pecyn' er mwyn cadw'r AAI brys a'r dogfennau perthnasol gyda'i gilydd. Dylid cadw'r pecyn AAI mewn lle diogel a hwylus, e.e. mewn swyddfa ganolog. Ni ddylid ei gadw dan glo nac mewn swyddfa sydd ddim ar gael i bawb. Mae angen i o leiaf ddau aelod penodol o staff wneud yn siŵr bod y pecyn AAI yn cael ei reoli a'i storio'n briodol, ei fod yn gyfredol ac wedi'i labelu'n glir, ei fod yn cael ei gadw ar wahân i unrhyw AAls a roddwyd ar bresgripsiwn i ddisgyblion, a'i fod yn cynnwys y canlynol:

- un AAI neu fwy, a chyfarwyddiadau ar sut i'w ddefnyddio;
- camau i'w cymryd mewn argyfwng;
- copi o'r Gofrestr AAI Brys (sy'n nodi'r disgyblion y rhoddwyd caniatâd i roi'r AAI brys iddynt);
- rhestr wirio fisol ar gyfer y pecyn AAI, yn dynodi'r AAI yn ôl rhif swp a dyddiad dod i ben;
- cyfarwyddiadau ar sut mae newid yr AAI, cyn y dyddiad dod i ben;
- manylion cyswllt o leiaf ddau aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli'r pecyn a'r polisi AAI;

¹⁴ Trin adweithiau anaffylactig ar frys: Canllawiau i ddarparwyr gofal iechyd. Y Cyngor Dadebru (DU). Ar gael yn: <https://www.resus.org.uk/anaphylaxis/emergency-treatment-of-anaphylactic-reactions/>

- cyfarwyddiadau ar storio'r AAI;
- gwybodaeth y gwneuthurwr; a
- chofnod defnyddio AAI.

Mae'n bwysig bod gan yr ysgol ddigon o becynnau AAI ar gyfer ei hanghenion, yn enwedig os oes ganddi nifer o safleoedd. Dylai pob pecyn AAI fod o fewn pum munud i'r manau lle bydd ei angen o bosib, e.e. ystafell fwyta, ystafelloedd dosbarth, cae chwaraeon, iard chwarae ac ati.

Mae'n rhaid storio pob AAI yn ddiogel a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, e.e. gwneud yn siŵr nad ydynt o fewn cyrraedd tymheredd eithafol na golau'r haul.

Mae gan lawer o ddisgyblion sydd ag alergeddau bwyd asthma hefyd (mae'n un o symptomau cyffredin anaffylacsis), felly mae'n bosib y byddai'n fuddiol cadw'r pecyn AAI gyda [phecyn anadlydd brys ar gyfer asthma](#)¹⁵. Dim ond unwaith y gellir defnyddio AAI. Mae'n rhaid cael gwarded ar AAI yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Gellir rhoi AAI sydd wedi cael ei ddefnyddio i'r parafeddygon a fydd yno, neu ei roi mewn bin eitemau miniog. Gall yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd lleol roi manylion am archebu biniau o'r fath ac am wasanaethau casglu lleol.

¹⁵ <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?skip=1&lang=cy>

4. Ymateb i symptomau alergedd ac anaffylacsis

Gellir defnyddio meddyginiaethau 'alergedd' fel gwrth-histamin ar gyfer adweithiau ysgafn, ond nid ar gyfer anaffylacsis. Mae gwybodaeth ynghylch adnabod ac ymateb i alergeddau ac anaffylacsis ar gael ar dudalennau 13 a 14. Gellid eu defnyddio fel posteri yn yr ysgol, a'u cynnwys yn y pecyn AAI.

Gan na fydd plant ifanc yn gallu dweud bod ganddynt symptomau alergedd o bosib, mae angen i staff allu adnabod symptomau alergedd ac anaffylacsis a gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Rhoi AAI

Mae angen i staff fod wedi'u hyfforddi i roi AAI¹⁶ mewn argyfwng. Gellir defnyddio AAI sbâr os nad yw AAI penodol y disgybl ar gael, er enghraifft gan ei fod wedi torri neu wedi gorffen, a dim ond ar ddisgybl y gwyddys ei fod mewn perygl o anaffylacsis y dylid ei ddefnyddio:

- pan nad oes modd iddo roi ei AAI penodol ei hun yn gywir, heb oedi; a
- pan fydd caniatâd gan y rhieni neu'r disgybl, lle'n briodol, wedi'i ddarparu.

Os bydd amheuaeth bod disgybl sydd ddim yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael adwaith anaffylacsis, dylid ffonio'r gwasanaethau brys ar 999 i gael gwybod a fyddai'n briodol defnyddio'r AAI brys.

Felly, yn ymarferol, dylai ysgolion:

- sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n effeithiol i ddefnyddio'r AAI sbâr mewn argyfwng;
- gofyn am wybodaeth i gadarnhau bod disgybl mewn perygl o anaffylacsis. Gallai hyn gynnwys copi o bresgripsiwn am AAI, copi o flwch yr AAI gyda label fferyllfa'r disgybl arno, gwybodaeth gan feddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol, etc.
- cael caniatâd y rhiant neu'r disgybl (lle'n briodol) i roi'r AAI sbâr mewn argyfwng. Gellir rhoi caniatâd yn ysgrifenedig (neu ar lafar lle bo angen). Ceir ffurflen ganiatâd yn Atodiad B y gellir ei ddiwygio i'w gwblhau gan y rhiant neu'r disgybl (os yn gymwys). Dylid dogfennu unrhyw ganiatâd a roddir ar lafar, yn ysgrifenedig, e.e. yn dilyn argyfwng.

Dylid rhoi AAI pan ddaw'r arwydd cyntaf o anaffylacsis i'r amlwg - os bydd oedi cyn rhoi'r adrenalin, mae'n bosib y bydd yn llai effeithiol. Mae'n ddiogel defnyddio AAI i chwistrellu i mewn i'r cyhyr, ac mae'n gallu achub bywyd. **Mae oedi cyn rhoi adrenalin yn ganfyddiad cyffredin mewn achosion o adweithiau angheuol.**

Mae pobl heblaw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gallu defnyddio AAI, e.e. staff, teulu, swyddogion cymorth cyntaf, drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar yr AAI. Yn ei hanfod, mae AAI yn cael ei chwistrellu'n gadarn i mewn i'r cyhyr yn rhan uchaf allanol y glun, a'i ddal yn ei le am 10 eiliad. Gellir defnyddio AAI drwy ddillad. Mae'r nodwydd yn chwistrellu'n awtomatig, ac yna bydd

16 2012 Fel y cyfeirir yn eitem 11, Rhan 3 o Atodlen 17 i Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012

yn cael ei thynnu'n ôl neu ei chuddio. Mae rhagor o wybodaeth a chlipiau ffilm ar roi AAI ar gael yn: <http://www.sparepensinschools.uk>

Mae'n rhaid ffonio 999 i ofyn am ambiwlans bob tro y bydd AAI yn cael ei ddefnyddio. Efallai y bydd y disgybl yn ymddangos fel petai'n well, ond mae anaffylacsis yn gallu dod yn ôl. Bydd yn rhaid i'r disgybl gael ei fonitro yn yr ysbyty.

Mae rhai disgyblion yn cael AAI yn ogystal ag anadlydd ar gyfer asthma. Gallai symptomau anaffylacsis a phwl o asthma edrych yn debyg. Os ydych chi'n ansicr, defnyddiwch yr AAI a'r anadlydd a ffoniwch 999. Mae canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys ar gael yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?skip=1&lang=cy>

Cofnodi bod yr AAI wedi cael ei ddefnyddio

Yn yr un modd â phob meddyginiaeth sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol, dylid cofnodi bod yr AAI wedi cael ei ddefnyddio, gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- lleoliad, dyddiad ac amser yr adwaith (e.e. gwern Addysg Gorfforol, y cae chwaraeon, 14:15, 20/06/18);
- faint o feddyginiaeth a roddwyd, pryd a gan bwy;
- y canlyniad, e.e. wedi rhoi AAI i'r disgybl, a gafodd ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans er mwyn cael ei fonitro. Cysylltwyd â'r rhieni cyn gynted â phosib. Bydd y dogfennau rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu hanfon at feddyg y disgybl er mwyn rhoi gwybod iddo am yr adwaith. Mae'r cynllun gofal iechyd unigol wedi cael ei ddiweddarau;
- sut roddwyd caniatâd i roi'r AAI e.e. yn ysgrifenedig neu ar lafar, a chan bwy.

Mae llythyr templed ar gyfer AAI ar gael yn Atodiad C. Mae Atodiad 2 y canllawiau [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#) hefyd yn cynnwys nifer o dempledi gofal iechyd a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion.

Adnabod adweithiau ac ymateb iddynt

Dyma rai arwyddion o adwaith alergaidd ysgafn-cymedrol:

- y gwefusau, yr wyneb neu'r llygaid wedi chwyddo
- teimlad o gosi neu bigo yn y geg
- brech ar y croen sy'n llosgi (hives) neu'n cosi
- poen yn yr abdomen neu chwydu
- ymddygiad wedi newid yn sydyn
- tisian



Camau i'w cymryd:

1. Arhoswch gyda'r disgybl, gwaeddwch am help os oes angen a chael gwared ar unrhyw beth amlwg a allai fod yn sbarduno'r sefyllfa.
2. Gofynnwch i rywun nôl cynllun gofal iechyd unigol a chwistrellwyr adrenalin awtomatig (AAI) y disgybl yn ogystal â'r pecyn AAI brys i chi, rhag ofn y bydd eu hangen. Ffoniwch 999 os bydd angen.
3. Darllenwch gynllun gofal iechyd unigol y disgybl. Rhwch feddyginiaeth fel yr amlinellir.
4. Ffoniwch y rhieni/cyswllt mewn argyfwng er mwyn rhoi gwybod iddynt am y sefyllfa.
5. Monitrowch y disgybl: os na fydd y symptomau'n datblygu i fod yn anaffylacsis, rhwch wybod i'r holl aelodau staff perthnasol, gan fod anaffylacsis yn gallu ymddangos oriau lawer yn ddiweddarach. Gofynnwch i'r disgybl roi gwybod i'r staff yn y dosbarthiadau nesaf.
6. Diweddarwch gynllun gofal iechyd unigol y disgybl, a rhoi gwybod i'r rhieni.

Trefn Argyfwng Anaffylacsis (adwaith alergaidd posibl a allai beryglu bywyd)

Dyma rai arwyddion o anaffylacsis (dydy symptomau ysgafn **ddim** bob amser yn ymddangos ymlaen llaw):

- Llwybr anadlu: yn pesychu'n ddi-baid, llais yn gryg, yn cael trafferth llyncu, tafod wedi chwyddo
- Anadlu: yn cael trafferth anadlu neu'n anadlu'n swnllyd, gwichian neu besychu'n ddi-baid
- Lefel ymwybyddiaeth: yn benysgafn am gyfnod, yn llwyd neu'n llipa, teimlo'n gysglyd yn sydyn iawn, llewygu, yn anymwybodol

Camau i'w cymryd:

1. Os bydd gan y disgybl un (neu fwy) o'r symptomau hyn, peidiwch â chynhyrfu, cysurwch y disgybl, a pheidiwch â'i adael ar ei ben ei hun heblaw bod gennych chi ddim dewis. Bydd angen i chi fynd ati'n ofalus i gael gwared ar unrhyw ffactorau amlwg a allai fod yn sbarduno'r sefyllfa. Gwaeddwch am help.
2. Gofynnwch i rywun nôl **AAI penodol y disgybl**, yn ogystal â'r **pecyn AAI brys**, i chi ar unwaith.
Mae'r AAI yn: _____ Ffôn: (_____) _____
Mae'n bosib y bydd yr AAI sydd gan y disgybl ar bresgripsiwn yn wahanol i'r AAI brys – byddwch yn dal yn gallu defnyddio'r AAI brys.
3. Gofynnwch i rywun ffonio 999 i ofyn am ambiwlans yn syth, gan ddweud "ana-ffil-acsis".
4. Os na fydd AAI y disgybl ar gael, agorwch y pecyn AAI a gwneud yn siŵr eich bod wedi cael caniatâd i'w ddefnyddio. Os yw'n hysbys bod y disgybl mewn perygl o anaffylacsis, gall hefyd cymryd caniatâd ar lafar ar gyfer ei ddefnydd.
5. Defnyddiwch yr AAI (bydd angen ei chwistrellu'n sicr a'i ddal yn ei le am 10 eiliad yn rhan uchaf allanol y glun, drwy'r dillad). Gwnewch nodyn o'r amser.
6. Gwnewch yn siŵr bod y disgybl yn gorwedd ar wastad ei gefn. Os yw'n cael trafferth anadlu, gadewch iddo eistedd yn unig (mae sefyll wedi arwain at ataliad ar y galon).



7. Gofynnwch i rywun fynd i gwrdd â'r parafeddygon a'u hebrwng atoch chi.
8. Gofynnwch i rywun addas ffonio'r rhieni/cyswllt mewn argyfwng ar unwaith, er mwyn rhoi gwybod iddynt am y sefyllfa.
9. Os na fyddwch chi'n gweld unrhyw welliant ar ôl 5-15 munud, rhwch **ail AAI**. Ffoniwch 999 i gael gwybod ble mae'r ambiwlans.
10. Os nad oes arwyddion o fywyd: dechreuwch wneud CPR a gofyn i rywun ffonio 999 unwaith eto i gael gwybod ble mae'r ambiwlans. (Os bydd angen i chi osod y disgybl yn yr ystum adfer (recovery position), gwnewch yn siŵr bod disgybl beichiog yn gorwedd ar eu hochr chwith).
11. Ar ôl i'r parafeddygon gyrraedd, dywedwch wrthynt beth allai fod wedi achosi'r adwaith a phryd rhoddwyd y chwistrellwr neu'r chwistrellwyr adrenalin awtomatig.
12. Gofynnwch i'r parafeddygon gael gwared ar unrhyw AAI sydd wedi cael ei ddefnyddio.

Os ydych chi'n ansicr - defnyddiwch yr AAI a ffonio 999

Dyma arwyddion o adwaith alergaidd

Adwaith alergaidd ysgafn-cymedrol:

- Y gwefusau, yr wyneb neu'r llygaid wedi chwyddo
- Teimlad o gosi neu bigo yn y geg
- Brech ar y croen sy'n cosi neu'n llosgi (hives)
- Poen yn yr abdomen neu chwyddo
- Newid sydyn mewn ymddygiad

CAMAU I'W CYMRYD:

- Arhoswch gyda'r plentyn, a galw am help os bydd angen
- Gwnewch yn siŵr bod gennych chi'r chwistrellwr neu'r chwistrellwyr adrenalin awtomatig
- Rhowch feddyginiaeth gwrth-histamin yn unol â chynllun trin alergedd y plentyn
- Ffoniwch y rhieni/cyswllt mewn argyfwng



Cadwch lygad ar agor am arwyddion o ANAFFYLACISIS (adwaith alergaidd sy'n gallu peryglu bywyd):

LLWYBR ANADLU:	Pesychu'n ddi-baid Llais yn gryg Cael trafferth llyncu, tafod wedi chwyddo
ANADLU:	Cael trafferth anadlu neu'n anadlu'n swnllyd Sŵn gwichian wrth anadlu neu'n pesychu'n ddi-baid
LEFEL YMWHYBYDDIAETH:	Teimlo'n benysgafn am gyfnod Yn llwyd neu'n llipa Teimlo'n gysglyd yn ddirybudd, llewygu, anymwybodol

OS BYDD UNRHYW UN (neu fwy) o'r arwyddion hyn i'w gweld:

1. Rhowch y plentyn i orwedd ar wastad ei gefn (os yw'n cael trafferth anadlu, gadewch i'r plentyn eistedd)
2. **Defnyddiwch chwistrellwr adrenalin awtomatig ar unwaith**
3. **Ffoniwch 999** i ofyn am ambiwlans a dweud ANAFFYLACISIS



***** OS YDYCH CHI'N ANSICR, RHOWCH ADRENALIN*****

Ar ôl rhoi adrenalin:

1. Arhoswch gyda'r plentyn nes bydd yr ambiwlans wedi cyrraedd, **PEIDIWCH** â gadael i'r plentyn sefyll ar ei draed
2. Ffoniwch y rhieni/cyswllt mewn argyfwng
3. Dechreuwch wneud CPR os nad oes arwyddion o fywyd
4. Os na fydd unrhyw welliant **ar ôl 5 munud, rhowch ddos arall** o adrenalin gan ddefnyddio chwistrellwr awtomatig arall, os oes un ar gael

Mae'n bosib na fydd arwyddion ysgafn o anaffylacisis yn ymddangos yn gyntaf. Os bydd rhywun rydych chi'n gwybod sydd ag alergedd bwyd yn dechrau **CAEL TRAFFERTH ANADLU YN DDIRYBUDD** (pesychu'n ddi-baid, llais yn gryg, sŵn gwichian wrth anadlu), **dylech BOB AMSER ddefnyddio chwistrellwr adrenalin awtomatig YN GYNTAF** - hyd yn oed os nad oes symptomau i'w gweld ar y croen.

5. Staff

Mae helpu neu oruchwylio'r broses o roi meddyginiaethau yn rôl wirfoddol. Pan fydd staff wedi gwirfoddoli i gyflawni'r rôl hon, neu o dan contract i wneud hynny, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth a hyfforddiant priodol ac effeithiol, a'u bod yn teimlo'n hyderus wrth wneud eu dyletswyddau.

Hyfforddiant

Bydd yn rhaid i staff gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r AAls sbâr. Mae swyddogaethau o ran hyfforddiant staff wedi'u nodi'n llawn yng nghanllawiau statudol [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#), ond dyma rai o'r prif bwyntiau:

Awdurdodau lleol - rhoi cefnogaeth, cyngor a chanllawiau, gan gynnwys sut mae diwallu anghenion hyfforddi staff.

Cyrff llywodraethu - gwneud yn siŵr bod staff yn cael cefnogaeth a hyfforddiant priodol, bod eu swyddogaethau (gan gynnwys unrhyw rai sy'n cael eu dirprwyo) yn glir a bod pawb yn eu deall.

Penaethiaid - gwneud yn siŵr bod digon o staff cymwys ar gael i helpu disgyblion.

Mae canllawiau statudol [Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd](#) hefyd yn datgan y dylai staff gael hyfforddiant i adnabod yr arwyddion, y symptomau a'r ffactorau sy'n sbarduno cyflyrau meddygol cyffredin sy'n peryglu bywyd, ac i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Felly, dylai staff gael hyfforddiant ar yr elfennau hyn, gan gynnwys cyfarwyddyd ymarferol ar ddefnyddio gwahanol fathau o AAls. Mae adnoddau hyfforddiant ar gael ar-lein, gan gynnwys yn <http://www.sparepensinschools.uk> ond nid yw hynny'n gwneud yn lle hyfforddiant wyneb-yn-wyneb. Mae'n bosib y bydd nyrs yr ysgol neu'r bwrdd iechyd lleol yn gallu rhoi cyngor ar drefnu hyfforddiant. Hefyd, efallai y bydd gan rieni/disgyblion fanylion cyswllt gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym maes alergeddau.

Byddai'n rhesymol bod yr holl staff:

- wedi cael hyfforddiant er mwyn gwahaniaethu rhwng yr amrywiaeth o arwyddion a symptomau sy'n gysylltiedig ag adwaith alergaidd;
- yn gwybod bod anaffylacsis yn gallu dechrau gyda symptomau ysgafn (e.e. brech ar y croen);
- yn deall pa mor gyflym y gall adwaith ddatblygu i fod yn anaffylacsis;
- yn sylweddoli mai po fwyaf o amser mae'n ei gymryd i roi AAI, y lleiaf effeithiol fydd yr adrenalin o bosib;
- yn gwybod ble mae'r pecyn(nau) AAI;
- yn deall y Polisi Argyfwng AAI a'r Gofrestr AAI Brys; ac
- yn gwybod gyda phwy y dylid cysylltu mewn argyfwng.

Tripiâu ysgol gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon

Pan fydd disgyblion sydd mewn perygl o gael adwaith anaffylacsis yn cymryd rhan mewn trip ysgol oddi ar dir yr ysgol, bydd yn rhaid cynnal asesiad risg yn yr un modd ag y gwneir eisoes mewn perthynas â diogelu, ac ati. Dylai'r disgyblion fynd â'u AAI eu hunain gyda nhw, a dylai fod staff ar

gael sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r AAI mewn argyfwng. Lle'n briodol, efallai y bydd ysgolion am fynd â AAls sbâr gyda nhw ar rai tripliau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Yswiriant

Gall awdurdodau lleol roi yswiriant indemniad priodol i ysgolion sydd â AAls. Ond bydd angen i'r ysgolion gytuno'n uniongyrchol â'r awdurdod lleol ar unrhyw yswiriant indemniad o'r fath.

6. Awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth i'w rhannu â rhieni

O 1 Hydref 2017 ymlaen, bydd pob ysgol annibynnol, uned cyfeirio disgyblion, ysgol arbennig, ysgol uwchradd, ysgol gynradd a meithrinfa a gynhelir yng Nghymru, yn gallu dewis cadw chwistrellwr adrenalin awtomatig (AAI) neu 'ben adrenalin' i'w ddefnyddio mewn argyfwng os byddant yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn ofyniad gorfodol a does dim modd i'r awdurdod lleol orfodi hynny.

Cofiwch - ni ddylid byth ddibynnu ar AAI brys yn lle AAI eich plentyn. Mae'n bosib na fydd gan feithrinfeydd ac ysgolion AAI brys ar y safle. Dylid ystyried bod unrhyw AAI a gedwir gan ysgol ar gyfer argyfyngau yn un sbâr neu wrth gefn, ac ni ddylai gymryd lle'r AAI sydd wedi'i roi i'r disgybl ar bresgripsiwn. Lle'n briodol, dylai eich plentyn gario dau AAI gyda'i enw arnynt.

Gall meithrinfeydd ac ysgolion sy'n dewis cadw AAI ar gyfer argyfwng ei defnyddio os nad yw AAI penodol y disgybl ar gael, er enghraifft gan ei fod wedi torri neu wedi dyddio, a dim ond ar ddisgybl y gwyddys ei fod mewn perygl o anaffylacsis y dylid ei ddefnyddio:

- pan nad oes modd iddo roi ei AAI penodol ei hun yn gywir, heb oedi; a
- pan fydd caniatâd gan y rhieni neu'r disgybl, lle'n briodol, wedi'i ddarparu.

Cofiwch roi gwybod i'r feithrinfa neu'r ysgol os oes gan eich plentyn alergeddau/os yw'ch plentyn wedi cael AAI ar bresgripsiwn, a gweithio gyda staff/gweithwyr iechyd proffesiynol i ysgrifennu cynllun gofal iechyd unigol. Does dim rhaid iddo fod yn hir, ond dylid ei nodi ar bapur. Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf i'r staff os bydd unrhyw newidiadau. Dylech osod label ag enw'ch plentyn arno ar AAI eich plentyn. Gallech ddarparu AAI(s) sbâr, wedi'u labelu.

Trafodwch â'r ysgol eich caniatâd i ddefnyddio'r AAI mewn argyfwng. Os yw eich plentyn yn gymwys, gallai hefyd roi caniatâd. Efallai y byddwch chi hefyd am drafod â'ch plentyn rôl yr ysgol o ran cadw AAI brys. Awgrymir bod rhieni/gofalwyr:

- yn rhoi gwybod i staff yr ysgol neu'r feithrinfa os oes gan eich plentyn alergeddau/os yw mewn perygl o gael adwaith anaffylacsis
- yn darparu gwybodaeth i gadarnhau bod disgybl mewn perygl o anaffylacsis. Gallai hyn gynnwys copi o bresgripsiwn am AAI, copi o flwch yr AAI gyda label fferyllfa'r disgybl arno, gwybodaeth gan feddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol, ac ati
- yn ysgrifennu cynllun gofal iechyd unigol, gan gynnwys staff iechyd ac addysg yn y broses;
- yn rhoi'r chwistrellwr neu'r AAI sbâr, wedi'u labelu, i'r ysgol cyn y dyddiad dod i ben
- yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar unrhyw feddyginiaethau sydd eu hangen ar eich plentyn, yn cynnwys yn ystod ymweliadau

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

- Canllawiau ar ddefnyddio chwistrellwyr adrenalin awtomatig brys mewn ysgolion yng Nghymru: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-aais-in-schools-in-wales/?lang=cy>
- Canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy>
- Allergy UK: <https://www.allergyuk.org/>
- Anaphylaxis Campaign: <https://www.anaphylaxis.org.uk>

7. Dolenni defnyddiol

- Spare Pens in Schools <http://www.sparepensinschools.uk>
- Canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd (Llywodraeth Cymru, 2017) <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy>
- Canllawiau ar ddefnyddio chwistrellwyr adrenalín awtomatig brys mewn ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017) <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-aais-in-schools-in-wales/?lang=cy>
- Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017) <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?skip=1&lang=cy>
- Allergy UK <https://www.allergyuk.org/>
- Anaphylaxis Campaign <https://www.anaphylaxis.org.uk>
- Ymwybyddiaeth o alergeddau a rheoli hynny ar draws yr ysgol gyfan (Allergy UK) <https://www.allergyuk.org/schools/whole-school-allergy-awareness-and-management>
- Hyfforddiant AllergyWise i ysgolion <https://www.anaphylaxis.org.uk/information-training/allergywise-training/for-schools/>
- Hyfforddiant AllergyWise i niwsys ysgol (Anaphylaxis Campaign) <http://www.anaphylaxis.org.uk/information-resources/allergywise-training/for-healthcare-professionals/>
- Safonau ansawdd ar gyfer alergeddau bwyd (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, Mawrth 2016) <https://www.nice.org.uk/guidance/qs118>
- Anaffylaxis: asesu a chyfeirio ar ôl triniaeth frys (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, 2011) <https://www.nice.org.uk/guidance/cg134?unlid=22904150420167115834>

Atodiad A: Ffurflen dempled i brynu AAls brys

(I'w argraffu ar bapur pennawd yr ysgol)

Hoffwn brynu chwistrellwyr adrenalin awtomatig (AAls) i'w defnyddio mewn argyfwng ar gyfer (rhowch enw'r ysgol). Bydd y AAls yn cael eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, sy'n dilyn Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (fel y'u diwygiwyd). Mae hyn yn galluogi ysgolion yn y DU i brynu AAls, heb bresgripsiwn, er mwyn trin anaffylacsis mewn argyfwng.

Gofynnir am y AAls canlynol:

Enw cynnyrch yr AAI:	Nifer sydd eu hangen:

Cyfanswm y AAls sydd eu hangen: _____

Enw'r ysgol: _____

Cyfeiriad yr ysgol: _____

Rhif ffôn yr ysgol: (_____) _____

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

(Pennaeth neu Bennaeth Dros Dro):

Printiwch eich enw yn llawn: _____

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y dolenni canlynol: Canllawiau ar ddefnyddio chwistrellwyr adrenalin awtomatig brys mewn ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (2017)
<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-aais-in-schools-in-wales/?lang=cy> a <http://www.sparepensinschools.uk>

Rhowch lun o'r disgybl er mwyn gallu ei adnabod mewn argyfwng

Atodiad B: Templed ffurflen ganiatâd

Ffurflen Ganiatâd: Defnyddio chwistrellwr adrenalin awtomatig (AAI) brys
(Rhowch enw'r ysgol a'i newid fel y bo'n briodol. Gellir ei gwblhau gan y rhiant/gofalwr neu'r disgybl-llie'n briodol).

Gwybodaeth y disgybl sydd mewn perygl o anaffylacsis

Enw llawn y plentyn (PRINTIWCH): _____
Dosbarth: _____
Dyddiad geni'r plentyn: _____

Ticiwch y blychau canlynol lle'n briodol:

1. Rwy'n cadarnhau bod y disgybl uchod:

- wedi cael AAI ar bresgripsiwn
- cymeradwyaeth feddygol i gael AAI yn ystod anaffylacsis

2. Rwy'n cadarnhau bod y disgybl uchod mewn perygl o anaffylacsis, ac rwy'n amgáu:

- copi o bresgripsiwn AAI y disgybl
- neu gopi o flwch yr AAI sydd â label fferyllfa'r disgybl arno
- neu gopi o wybodaeth gan feddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol perthnasol
- neu, arall (*nodwch*) _____

3. Os bydd gan y disgybl uchod symptomau anaffylacsis ac os na fydd ei AAI ar gael, neu os na fydd modd eu defnyddio, rwy'n cadarnhau y gall gael adrenalin gan AAI(s) brys a gedwir yn yr ysgol ar gyfer argyfyngau o'r fath. Rwy'n deall y gall yr AAI(s) brys fod yn wahanol i'r AAI a roddwyd ar bresgripsiwn y disgybl.

4. Byddaf yn rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau i'r feddyginiaeth, y driniaeth neu'r perygl i anaffylacsis ac ati, mewn perthynas â'r disgybl uchod.

- Fi yw'r rhiant/gofalwr
- Fi yw'r disgybl
- Rwyf wedi trafod hyn gyda fy mhlentyn
- Rwyf wedi trafod hyn gyda fy rhiant/gofalwr

Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Enw llawn (PRINTIWCH) _____

Rhifau ffôn: _____ / _____ / _____

Cyfeiriad: _____

Manylion y meddyg

Enw meddyg y disgybl & rhif ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

Atodiad C: Defnyddio templed llythyr AAI

Defnyddio chwistrellwr adrenalin awtomatig (AAI)

(rhowch enw'r ysgol a'i newid fel y bo'n briodol)

Dyddiad:

Annwyl

Pwrpas y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi bod (*enw'r disgybl*) _____

wedi dangos symptomau anaffylacsis am _____

Fe ddigwyddodd hyn pan _____

(Rhaid dileu fel y bo'n briodol)

- Fe ddefnyddiodd y disgybl/aelod o staff un/ddau o'r AAI(s) a roddwyd ar bresgripsiwn.

- Fe ddefnyddiodd y disgybl/aelod o staff un/ddau o AAI(s) brys yr ysgol.

Roedd angen gwneud hynny oherwydd _____

Rydym yn eich cynghori'n gryf i rannu'r wybodaeth hon â meddyg y disgybl cyn gynted â phosibl, rhag ofn y bydd angen asesiad meddygol pellach.

Yn gywir,